# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR SAFONAU**

Dyddiad ac Amser

**10.30 y.b., DYDD LLUN, 21AIN TACHWEDD, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

*(Am fynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni)*

Pwynt Cyswllt

**Eirian Roberts**

**01286 679018**

**eirianroberts3@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 14/11/22)

# PWYLLGOR SAFONAU

## AELODAETH

## Aelodau Etholedig (3)

Y Cynghorwyr

Anne Lloyd-Jones
Beth Lawton
Dewi Owen

## Aelodau Annibynnol (hefo pleidlais) (5)

Aled Jones
David Wareing
Einir Young
Hywel Eifion Jones
[sedd wag]

## Aelod Pwyllgor Cymuned (hefo pleidlais) (1)

Richard Parry Hughes

# R H A G L E N

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. COFNODION** 4 - 10

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 11 Gorffennaf, 2022 fel rhai cywir.

**3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Derbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

**4. MATERION BRYS**

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y Cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

**5. FFORWM GENEDLAETHOL PWYLLGORAU SAFONAU** 11 - 13

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

**6. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021: PROTOCOL DYLETSWYDD ARWEINYDDION GRWPIAU GWLEIDYDDOL A'R PWYLLGOR SAFONAU** 14 - 18

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro.

**7. YMGYNGHORIAD Y PWYLLGOR SAFONAU GYDA DETHOLIAD O GLERCOD CYNGHORAU TREF A CHYMUNED PARTHED Y FFRAMWAITH SAFONAU MOESEGOL**

Cyflwyno adroddiad y Swyddog Monitro  (i ddilyn)

**8. HONIADAU YN ERBYN AELODAU** 19 - 20

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau.

# PWYLLGOR SAFONAU DYDD LLUN, 11 GORFFENNAF 2022

**Yn bresennol**:-

**Aelodau Etholedig:-** Y Cynghorwyr Anne Lloyd Jones, Beth Lawton a Dewi Owen.

**Aelodau Annibynnol:** Mr Aled Jones, Mr Hywel Eifion Jones, Mr Dave Wareing a'r Dr Einir Young (Cadeirydd)

**Aelod Pwyllgor Cymunedol:** Mr Richard Parry Hughes

**Hefyd yn Bresennol:** Sion Huws (Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau) ac Eirian Roberts (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

**1. ETHOL CADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol y Dr Einir Young yn gadeirydd y pwyllgor hwn.**

Nododd y Cadeirydd fod tymor Miss Margaret E.Jones ar y pwyllgor wedi dod i ben, a chytunwyd i anfon nodyn ati yn mynegi gwerthfawrogiad y pwyllgor o'i gwaith ar hyd y blynyddoedd.

Croesawyd y Cynghorwyr Beth Lawton ac Anne Lloyd Jones a'r Aelod Pwyllgor Cymunedol, Richard Parry Hughes, yn ôl ar y pwyllgor, a chroesawyd y Cynghorydd Dewi Owen fel aelod etholedig newydd ar y pwyllgor.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD**

**PENDERFYNWYD ethol Mr Hywel Eifion Jones yn is-gadeirydd y pwyllgor hwn.**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi.

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi.

**5. MATERION BRYS**

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

**6. COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod blaenorol o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 14 Chwefror, 2022 fel rhai cywir, yn amodol ar gywiro dau gyfeiriad at y Cadeirydd fel '*he'* yn hytrach na '*she'* yn y fersiwn Saesneg, fel a nodir isod:-

*"The Chair noted that the discussion on Richard Penn's Report in the Standards Conference had been of a very high standard, but we, in Gwynedd, had made great strides in understanding the report from our perspective. She added that if any other standards committees had undertaken a similar exercise to the Task Group in Gwynedd, it would be*

*interesting to bring all the work together to see whether there were similar themes that could be discussed further."*

*"The Chair shared the slides 'Standards – a view from Gwynedd' that she had presented at the recent All Wales Standards Conference."*

## 7. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU

Cyflwynwyd – adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau yn amgáu drafft o adroddiad blynyddol y pwyllgor ar gyfer 2021/22. Gwahoddwyd sylwadau a chymeradwyaeth y pwyllgor i'r ddogfen.

Nodwyd bod un aelod wedi cyflwyno diweddariad i'w fywgraffiad eisoes a chyfeiriodd aelodau at ddiweddariadau / cywiriadau pellach, sef:-

- Mr Hywel Eifion Jones – ddim yn aelod o Fwrdd Betsi Cadwaladr bellach, ond yn aelod o Bwyllgor Llywodraethu ac Archwilio Cyngor Gwynedd. Hefyd yn Gadeirydd Adra ac yn aelod o Fwrdd Pensiynau Gwynedd.
- Y Cynghorydd Beth Lawton – ddim yn Is-gadeirydd Pwyllgor Craffu Gofal Cyngor Gwynedd bellach, ond yn Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi yn ystod 2021/22.
- Y Cynghorydd Anne Lloyd Jones – yn parhau i fod yn Drysorydd cangen leol yr NSPCC.

Awgrymwyd y dylid cynnwys cyfeiriad dan y pennawd '*Achosion fu gerbron y Pwyllgor'* at ymateb cadarnhaol yr Ombwdsmon i benderfyniad y pwyllgor ar y gŵyn a gyfeiriwyd ato, gan nodi bod yr achos yn un a fethodd fynd i apêl oherwydd bod y pwyllgor wedi gwneud ei waith mor drylwyr, a hynny oherwydd y gefnogaeth a ddarparwyd gan yr Adran a'r swyddogion.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r adroddiad blynyddol i'w gyflwyno i'r Cyngor llawn ar 6 Hydref, yn ddarostyngedig i ychwanegu cyflwyniad a rhagair gan y Cadeirydd a'r Swyddog Monitro, cyfeiriad at ymateb yr Ombwdsmon i benderfyniad y pwyllgor ar y gŵyn a gyfeiriwyd ato, ac i wneud mân addasiadau i fywgraffiadau'r aelodau.**

## 8. HUNAN ASESIAD A RHAGLEN WAITH

Cyflwynwyd – adroddiad y Swyddog Monitro yn gwahodd y pwyllgor i:-

- gynnal hunan asesiad o waith ac allbynnau'r pwyllgor yn ystod 2020/21; ac
- ystyried rhaglen waith ddrafft ar gyfer 2022/23.

Wrth gynnal yr hunan asesiad, nodwyd y pwyntiau a ganlyn:-

- Y byddai'n fuddiol rhifo'r swyddogaethau yn y tabl o hyn allan.
- Y dylid sicrhau bod hunan asesiadau blaenorol y pwyllgor wrth law yn y dyfodol er mwyn gallu cymharu, sicrhau cysondeb a mesur cynnydd.
- Mynegwyd siomedigaeth mai ond 5 allan o'r 69 cynghorydd sir oedd yn bresennol yn yr hyfforddiant diweddar ar y Cod Ymddygiad. Mewn ymateb, eglurwyd bod pob cynghorydd sir wedi derbyn hyfforddiant cyffredinol ar y Cod fel rhan o'r diwrnodau croesawu yn dilyn yr etholiadau diweddar, a bod o leiaf un sesiwn arall mwy manwl wedi'i drefnu. Bwriedid cynnal sesiwn debyg gydag aelodau cyfetholedig y Pwyllgor Craffu Addysg ac Economi hefyd.
- Awgrymwyd y byddai'r Protocol Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol arfaethedig yn fodd o gael gwell trefn ar y sefyllfa drwy roi pwysau a chyfrifoldeb ar yr Arweinyddion i sicrhau bod eu haelodau yn mynychu hyfforddiant o'r fath.

- Awgrymwyd, o safbwynt bod yn weledol, y dylai aelodau o'r Pwyllgor Safonau, neu o leiaf y Cadeirydd/Is-gadeirydd fod yn bresennol ar gychwyn y sesiynau hyfforddiant.
- Awgrymwyd ei bod yn gamarweiniol dweud mai ond 5 aelod oedd wedi mynychu'r hyfforddiant diweddar ar y Cod gan fod yr hyfforddiant yn cael ei recordio ac ar gael ar y Fewnrwyd Aelodau i bawb ei wylio yn eu hamser eu hunain. Nodwyd y byddai'n fuddiol gwybod faint o bobl sydd wedi gwylio'r recordiad a chytunodd y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau i wneud ymholiadau ynglŷn â hynny.
- Holwyd a oedd y recordiad o'r hyfforddiant ar gael ar gyfer aelodau cynghorau cymuned a thref yn ogystal. Mewn ymateb, eglurwyd bod y recordiad ar gael ar Fewnrwyd Aelodau Gwynedd yn unig ar hyn o bryd, ond diau y byddai modd i'r Cyngor drefnu mynediad ar gyfer aelodau'r cynghorau cymuned a thref. Nodwyd ei bod yn bwysig sicrhau bod y recordiad ar gael i bawb, ac awgrymwyd y byddai'n fuddiol cynnwys yr hyfforddiant ar dudalen we'r Pwyllgor Safonau yn ogystal. Nododd y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau y byddai'n edrych ar y ffordd orau ymlaen o ran sicrhau bod yr adnodd ar gael.
- Gan gyfeirio at y swyddogaeth o fonitro gweithrediad y Cod Ymddygiad (4), eglurodd y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau fod yr Ombwdsmon wedi dirwyn y Llyfr Achosion Cod Ymddygiad i ben, a bellach bod rhaid mynd i wefan yr Ombwdsmon i chwilio am wybodaeth ynglŷn ag achosion. Gan hynny, byddai'n rhaid edrych beth yw'r ffordd orau o gyflwyno'r wybodaeth i'r pwyllgor yn y dyfodol. O bosib' y gellid cyfuno hynny gyda'r adroddiadau rheolaidd ar honiadau yn erbyn aelodau, gyda'r nod o gyflwyno rhywbeth mwy ystyrlon i'r pwyllgor.
- O ran y swyddogaeth o ymarfer yr holl swyddogaethau mewn perthynas â chynghorau cymuned (9), roedd peth anghytundeb ymhlith yr aelodau ynglŷn â'r asesiad, gyda rhai o blaid defnyddio categori 3 ar y sail bod yna gamau sydd angen eu cymryd, ac eraill o blaid defnyddio categori 4 ar y sail nad oedd y gwaith yn digwydd. Yn dilyn trafodaeth, cafwyd consensws o blaid categori 3, ond gan ddiwygio'r camau pellach i nodi bod rhaid ystyried hyn fel blaenoriaeth.
- Holwyd, gan ei bod yn ofynnol bellach i gynghorau cymuned a thref gynnal eu cyfarfodydd yn hybrid, a fyddai'n bosib' recordio arweiniad syml yn amlygu prif bwyntiau'r Cod Ymddygiad i'w gyflwyno i'r aelodau fel eitem ar gychwyn eu cyfarfod, ac a fyddai ar gael i'r aelodau ei wylio yn ddiweddarach hefyd. Mewn ymateb, nododd y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau y gellid edrych i mewn i hynny.
- Mynegwyd pryder na allai cynghorau bach fforddio cynnal eu cyfarfodydd yn hybrid a nodwyd ei bod yn mynd i gymryd amser i sefydlu hyn, er yr orfodaeth gan y Llywodraeth. Nodwyd hefyd ei bod yn anodd i gynghorau bach fforddio talu am wasanaeth cyfieithu yn eu cyfarfodydd.

Yna rhoddwyd ystyriaeth i Atodiad 3 i'r adroddiad, ymateb y Swyddog Monitro i'r pwyntiau a godwyd gan y Grŵp Tasg a Gorffen – Y Fframwaith Safonau Moesegol, a sut mae hynny'n bwydo i mewn i raglen waith y pwyllgor. Nodwyd y pwyntiau a ganlyn:-

- Gan gyfeirio at y pwynt gweithredu cyntaf, sef yr angen i wneud trosolwg o'r clercod, nododd y Cadeirydd fod angen sicrhau trefn foesegol briodol ar gyfer gwneud y gwaith sy'n gosod allan yn glir beth yw pwrpas y trosolwg, pwy sy'n gwneud y gwaith ac o dan ba bennawd o fewn y Pwyllgor Safonau, sut bydd y wybodaeth yn cael ei defnyddio, sut bydd y data yn cael ei gadw, sut byddwn yn adrodd y casgliadau ac erbyn pryd, a beth fydd yn digwydd i'r wybodaeth. Nodwyd hefyd y bydd angen caniatâd ysgrifenedig y clercod i'r trosolwg gymryd lle.
- Nodwyd bod clercod y cynghorau cymuned yn awyddus i gynnal safonau da, ond bod eu hadnoddau yn brin. Roeddent yn chwilio am gymorth ac atebion, a gallent fod yn asiant da ar ran y Swyddog Monitro i godi'r safonau.

- Nododd y Cadeirydd, er nad oedd y trosolwg o'r clercod wedi cychwyn yn swyddogol eto, y cafwyd sgwrs anffurfiol gyda chlerc, a bod nifer o faterion diddorol wedi codi, e.e. y gofyn dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i bob cyngor cymuned greu cynllun hyfforddiant erbyn 5 Tachwedd eleni. Byddai angen deall sut mae'r hyfforddiant a ddarperir gan y Swyddog Monitro yn ffitio i mewn i hynny ac yn ychwanegu gwerth, yn hytrach na bod yn rhywbeth ychwanegol i'r hyn mae'r cynghorau cymuned eu hunain yn ceisio ei greu. Nodwyd hefyd y bu i'r Grŵp Tasg drafod a fyddai'r clercod yn dymuno cael grŵp cyfoedion. Fodd bynnag, deellid bellach, yn sgil y sgwrs gyda'r clerc, bod grŵp o'r fath yn bodoli eisoes ar lefel genedlaethol, gyda changen Gwynedd, ond nad oedd gan bob cyngor cymuned yr adnoddau i dalu'r tâl aelodaeth.
- Mynegwyd pryder bod y Llywodraeth yn gosod mwy a mwy o ofynion ar gynghorau cymuned, ond nad oeddent yn darparu adnoddau ychwanegol ar gyfer hynny na chyngor ynglŷn â sut i fynd ati i gyflawni'r dyletswyddau hynny, e.e. cynnal cyfarfodydd hybrid, bancio ar lein, cyfieithu, ayb. Nodwyd hefyd nad oedd gan gynghorau bach yr arian i dalu am glerc, ond roedd y pwyslais ar fwy o hyfforddiant / cymhwyster proffesiynol i glercod, ayb, yn gwneud y sefyllfa'n anoddach fyth. Hefyd, rhaid cofio mai gwirfoddolwyr yw cynghorwyr cymuned. Mewn ymateb, eglurwyd mai un o allbynnau'r trosolwg o'r clercod fyddai amlygu'r anawsterau ymarferol mae'r cynghorau cymuned yn wynebu, ac roedd angen i'r Llywodraeth, wrth roi gofynion ychwanegol ar gynghorau, sylweddoli bod angen ail-strwythuro'r gefnogaeth iddynt.
- Awgrymwyd efallai y dylai clercod gael eu cyflogi gan y cyngor sir, ond bod y cynghorau cymuned a thref yn gwneud defnydd ohonynt fel bod yna dîm proffesiynol ar gael. Mater i'r Llywodraeth oedd datrys hyn, ond roedd dyletswydd ar y Pwyllgor Safonau i amlygu bod hyn yn broblem.
- Nodwyd y byddai'n fuddiol gwybod faint o seddi gweigion sydd yna ar gynghorau cymuned ar draws Gwynedd. Awgrymwyd y gellid cyrraedd sefyllfa yn y dyfodol lle bydd rhaid uno cynghorau cymuned gan eu bod yn rhy fychan i gynnal eu gwasanaethau, a nodwyd bod hyn eto yn fater i Lywodraeth Cymru.
- Gofynnodd y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau a ddymunai'r pwyllgor dderbyn adborth o'r trosolwg o'r clercod yn eu cyfarfod nesaf ym mis Tachwedd, ond awgrymwyd bod hynny'n rhy hwyr, gan y bydd angen i'r cynghorau cymuned greu cynllun hyfforddiant erbyn 5 Tachwedd. Awgrymwyd y dylid anelu i adrodd yn ôl erbyn dechrau Medi, gan ail-ymgynnull y Grŵp Tasg a Gorffen i gael golwg ar yr adborth, ac o bosib' ei gyflwyno i'r Cyngor llawn ym mis Hydref.
- Nododd y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau mai pwrpas yr ymarferiad oedd mynd i siarad gyda rhai clercod i ddeall eu gofynion, gan dderbyn y byddai yna faterion yn codi fyddai y tu hwnt i bwerau / y tu allan i gylch gorchwyl y Pwyllgor Safonau. Mewn ymateb, nododd y Cadeirydd y dylai safonau fod yn rhywbeth sy'n gorgyffwrdd popeth mae'r cynghorau yn wneud.
- O ran rhaglen waith y pwyllgor, nododd y Cadeirydd fod angen cywiro'r flwyddyn ar dop y dudalen i 2022/23 a dod â'r eitem Mabwysiadu Protocol Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol ymlaen, gan fod angen datblygu'r protocol cyn gynted â phosib'. Mewn ymateb, eglurodd y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau y byddai'r gwaith o ddatblygu'r protocol yn cychwyn cyn gynted â phosib, ac y byddai'r eitem i'r pwyllgor ym mis Tachwedd yn ben draw, yn hytrach nag yn gychwyn y broses honno.
- Eglurodd y Cadeirydd y bwriedid holi'r clercod ynglŷn â materion yn cynnwys hyfforddiant gorfodol, cymhwyster proffesiynol gorfodol, y pwysau anymarferol o gyfeiriad Llywodraeth Cymru, cwestiynau am Unllais Cymru, bylchau mewn gwybodaeth ymarferol a'r angen am gyngor pendant ynglŷn â beth sydd angen ei wneud a sut i fynd ati i wneud hynny, beth yn union ydi swydd-ddisgrifiad clerc ac ydi'r swydd-ddisgrifiadau yn gyson rhwng un cyngor a'r llall. Nodwyd hefyd y deellid bod yna bethau sy'n rhaid i glercod wneud, a bod yna bethau sy'n

ddewisol, a dymunid gweld sut mae hyn yn gwahaniaethu o le i le. Hefyd, bwriedid holi'r clercod ynglŷn ag adnoddau ar gyfer cyfieithu a chynnal cyfarfodydd yn hybrid gan y byddai methu cynnal cyfarfodydd hybrid yn amharu ar y gallu i rannu hyfforddiant.

- Gan gyfeirio at sylw'r Swyddog Monitro y byddai'r trafodaethau gyda'r cynghorau cymuned yn gyfrwng, nid yn unig i ddatblygu gwasanaethau, ond hefyd i greu cyswllt byw gyda'r cynghorau cymuned a thref, ac y byddai angen darparu adnodd, nododd y Cadeirydd fod yr adnodd (sef hi a'r Aelod Pwyllgor Cymunedol) cyn lleied â phosib', ond bod yr adnodd cefnogol yn ymwneud â beth sy'n digwydd i'r wybodaeth, lle mae'n cael ei chadw, ayb, yn hytrach na bod angen llawer o gefnogaeth arall.
- Holwyd a oedd dyddiad wedi'i bennu ar gyfer y drafodaeth gydag Arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol gan ei bod yn bwysig bod y sgwrs yn digwydd yn fuan. Nododd y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau ei fod ar ddeall bod y Swyddog Monitro yn rhoi sylw i hyn a chytunodd i basio'r neges ymlaen.

**PENDERFYNWYD**

**(a) Mabwysiadu'r canlynol fel hunan asesiad y pwyllgor o'i berfformiad yn 2021/22.**

| SWYDDOGAETH | ASESIAD (1/2/3/4) | Tystiolaeth | Camau pellach |
|---|---|---|---|
| **1. Hyrwyddo a chynnal safonau ymddygiad uchel gan aelodau** | **1.** | **Mae'r Cadeirydd ac Is Gadeirydd wedi mynychu Fforwm Safonau Gogledd Cymru i rannu profiadau hefo pwyllgorau safonau eraill.**<br><br>**Cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cyngor Llawn**<br><br>**Pwyllgor wedi derbyn adroddiad ar Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021** | **Parhau i fynychu a chefnogi** |
| **2. Cynorthwyo'r aelodau i gadw at y Cod Ymddygiad** | **3.** | **Swyddog Monitro a'i dîm yn darparu cyngor ac arweiniad mewn cyfarfodydd ac ar sail un i un i aelodau.** | **Adfer camau hyfforddiant pan mae adnoddau yn caniatáu** |
| **3. Cynghori'r Cyngor ynglŷn â mabwysiadu neu ddiwygio'r Cod Ymddygiad** | **1.** | **Dim achlysur wedi codi i ddiwygio'r Cod.** | |
| **4. Monitro gweithrediad y Cod Ymddygiad** | **3** | **Derbyn adroddiadau rheolaidd o honiadau yn erbyn aelodau**<br><br>**Derbyn adroddiadau blynyddol yr Ombwdsman a Phanel Dyfarnu Cymru**<br><br>**Penderfynodd y pwyllgor** | **Parhau i fonitro ac ystyried dulliau amgen o dderbyn gwybodaeth**<br><br>**Derbyn adroddiadau blynyddol am y gofrestr buddiannau a lletygarwch.**<br><br>**Yn dilyn yr Etholiad,** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | **gychwyn gwaith ynglŷn â'r ddyletswydd newydd a osodwyd ar Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol ynglŷn ag ymddygiad eu haelodau.** | **bydd camau yn cael eu cymryd i weithio gydag Arweinyddion Grŵp i sefydlu trefniadau gweithredol ar gyfer y ddarpariaeth newydd.** |
| **5. Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi aelodau ar faterion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad** | **3.** | **Trefnwyd hyfforddiant anwytho ar gyfer aelodau newydd Cyngor Gwynedd yn paratoi at yr etholiadau.** | **Angen edrych ar ddarparu hyfforddiant newydd.** |
| **6. Rhoi goddefebau i aelodau** | **1.** | **Dim ceisiadau wedi eu hystyried dan y drefn newydd.** | |
| **7. Ymdrin ag adroddiadau o dribiwnlys achos ac unrhyw adroddiadau gan y Swyddog Monitro ar faterion a gyfeiriwyd gan yr Ombwdsmon** | **1.** | **Ymdriniwyd ag un achos a gyfeiriwyd at y pwyllgor gan yr Ombwdsmon.** | |
| **8. Awdurdodi'r Swyddog Monitro i dalu lwfansau i bersonau a gynorthwyodd gydag ymchwiliad** | **Dim angen gweithredu** | **Ni fu achlysur i dalu lwfans o'r fath** | |
| **9. Ymarfer y swyddogaethau uchod mewn perthynas â chynghorau cymuned** | **3** | **Swyddog Monitro a'i dîm yn darparu cyngor ac arweiniad i gynghorau, clercod ac aelodau.**<br><br>**Mabwysiadu peilot ar gyfer hyfforddi Cod Ymddygiad. Wedi cynnwys sesiwn i beilota cynnwys y cwrs.** | **Rhaid ystyried hyn fel blaenoriaeth.** |

**(b) Cymeradwyo'r rhaglen waith a ganlyn ar gyfer 2022/23:-**

**<u>11 Gorffennaf, 2022</u>**
**Adroddiad Blynyddol**
**Honiadau yn erbyn Aelodau**
**Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021**

**<u>21 Tachwedd 2022</u>**
**Cofrestr Rhoddion a Lletygarwch**
**Cofrestr Datgan Buddiant**
**Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon**
**Honiadau yn erbyn Aelodau**

**Mabwysiadu Protocol Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol**

**<u>13 Chwefror 2023</u>**
**Adroddiad Blynyddol y Panel Dyfarnu**
**Honiadau yn erbyn Aelodau**
**Hunan Asesiad a Rhaglen Waith**
**Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor**

**(c) Awdurdodi'r Cadeirydd a'r Aelod Pwyllgor Cymunedol, mewn ymgynghoriad â'r Swyddog Monitro, i fwrw ymlaen â'r gwaith gyda sampl o glercod cynghorau cymuned a thref i ddeall yn well beth yw eu hanghenion, gan sicrhau trefn foesegol briodol ar gyfer gwneud hynny, ac ymgynnull cyfarfod pellach o'r Grŵp Tasg a Gorffen – Y Fframwaith Safonau Moesegol ddechrau Medi i dderbyn adborth o'r trafodaethau gyda'r clercod.**

**9. HONIADAU YN ERBYN AELODAU**

Cyflwynwyd - adroddiad y Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau yn cyflwyno gwybodaeth am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

Gan gyfeirio at gŵyn rhif 202004473, mynegwyd pryder ei bod wedi cymryd gymaint o amser i'r Ombwdsmon ddod i'r farn nad oedd yr aelod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, a nodwyd bod hyn yn hollol annheg ar yr aelod oedd wedi gorfod wynebu etholiad gyda'r mater hwn yn gysgod drosto. Mewn ymateb, nodwyd bod hwn yn bwynt oedd yn cael ei godi'n aml, ac er bod Swyddfa'r Ombwdsmon yn dweud eu bod yn cyflymu'r broses o gynnal asesiad cychwynnol i benderfynu a ddylid ymchwilio i gŵyn ai peidio, roedd yr ymchwiliad ei hun yn medru cymryd llawer iawn o amser.

**PENDERFYNWYD nodi'r wybodaeth.**

Dechreuodd y cyfarfod am 10.30 y.b. a daeth i ben am 12.00 y.h.

______________________________
**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **Pwyllgor :** | **Y PWYLLGOR SAFONAU** |
| **Dyddiad :** | **21 Tachwedd 2022** |
| **Teitl :** | **Fforwm Genedlaethol Pwyllgor Safonau** |
| **Awdur :** | **Iwan Evans Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol – Swyddog Monitro** |
| **Pwrpas :** | **I gynnig trefniadau ar gyfer Fforwm Genedlaethol** |

**ARGYMHELLION**

**1 Cytuno ar y Cylch Gorchwyl drafft, gan gynnwys cynrychiolaeth.**

**2 Cymeradwyo'r trefniadau arfaethedig i gefnogi'r Fforwm Cenedlaethol.**

**CEFNDIR**

1. Bydd aelodau yn cofio imi adrodd ar Adroddiad Penn ym mis Tachwedd 2021. Roedd hwn yn adolygiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ac a gynhaliwyd gan Richard Penn yn edrych i'r Cod Ymddygiad, sut mae'n cael ei orfodi, sut y cyflawnir hyfforddiant a phob dull arall i sicrhau safonau uchel o ymddygiad moesegol. Mae disgwyl am ymateb Llywodraethau Cymru i'r adroddiad. Gwnaethpwyd sylwadau yn yr adroddiad am yr amrywiaeth o ymarfer ledled Cymru yn y modd y mae'r Pwyllgorau Safonau yn cyflawni eu dyletswyddau. Ym mharagraff 4.4.1 mae'r adroddiad yn dweud:

   > "Cefais fy nharo gan yr amrywiad yn y ffordd y mae Pwyllgorau Safonau Cymru yn gweld eu cylch gwaith ac yn y rôl a chwaraeir gan Gadeiryddion Annibynnol y Pwyllgorau Safonau. Yn yr un Pwyllgor Safonau eithafol ac ymddengys bod eu Cadeiriau Annibynnol naill ai wedi eu rhoi neu wedi mabwysiadu rôl gyfyngedig iawn, gan gyfarfod yn anaml a dim ond yn wirioneddol weithgar pan fo Gwrandawiad o achos a gyfeiriwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Ar y pegwn arall mae Pwyllgorau Safonau a Chadeiryddion sy'n gweld eu cylch gwaith yn llawer ehangach na hyn, ac fel arwain datblygiad a chynnal y fframwaith safonau moesegol yn yr awdurdod lleol hwnnw."

2. Aeth Richard Penn, awdur yr adroddiad, ymlaen wedyn i wneud sylwadau'n gadarnhaol ar waith y fforwm ar gyfer Cadeiryddion Pwyllgorau Safonau yng Ngogledd a Chanolbarth Cymru. Er ei fod yn cydnabod y lle ar gyfer gwneud penderfyniadau lleol, mae'n argymell sefydlu Fforwm Cenedlaethol ar hyd yr un llinellau - gweler paragraff 4.4.5

   > "Rwy'n awgrymu y dylid cael Fforwm Cymru gyfan ... a fyddai'n annog cysondeb yn y dull o weithredu, a mabwysiadu arferion gorau ledled Cymru."

   Pan ymgynghorwyd, roedd pob un o’r 22 prif Gyngor, 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol; a 3 Awdurdod Tân ac Achub wedi datgan cefnogaeth i Fforwm Genedlaethol at ddibenion rhannu arferion da.

3. Bydd y fforwm yn

a) rhoi cyfle i gadeiriau rannu a chytuno i gydlynu ymarfer;

b) gweithredu fel bwrdd bachog am syniadau;

c) creu rhwydwaith cymorth ar gyfer cadeiryddion a Phwyllgorau.

Mae'r Cylch Gorchwyl Drafft wedi'i atodi yn Atodiad 1, sydd hefyd yn cynnwys cynigion ar gyfer sut y bydd gwaith y fforwm yn cael ei gefnogi. Ni fydd yn gyd-bwyllgor ffurfiol ac felly ni fydd modd iddo wneud penderfyniadau ar ran y Cynghorau cyfansoddol na'u Pwyllgorau Safonau. Pan fydd syniad ar gyfer gweithredu cyffredin yn cael ei gynnig bydd ar ffurf argymhelliad neu awgrym o arfer gorau a mater i'r Pwyllgor ar lefel leol fydd mabwysiadu'r dull gweithredu ai peidio. Mae gwerth sylweddol mewn rhannu ymarfer da a dysgu o brofiadau Pwyllgorau eraill ond, mae amrywiaeth hefyd mewn natur ein Cynghorau, ardaloedd ac adnoddau sydd wedi creu y darlun a amlygir yn yr adroddiad.

4. Bydd y corff yn cynnwys 28 awdurdod cyfansoddol ar y cychwyn. Bwriedir cynnal Awdurdod Parc Cenedlaethol newydd ac mae 4 Cyd-bwyllgor Corfforaethol newydd eu ffurfio a fydd, maes o law, yn cael Pwyllgor Safonau, a allai hefyd ddymuno ymuno. Pe bai awdurdodau cyfansoddol yn anfon mwy nag un cynrychiolydd, yna byddai'r cyfarfodydd yn anhylaw. Felly, bydd pob awdurdod yn cael un cynrychiolydd a allai enwebu dirprwy i fod yn bresennol yn eu habsenoldeb. Bydd Swyddogion Monitro yn anfon un cynrychiolydd i bob rhanbarth (bydd y rôl hon yn cylchdroi yng Ngogledd Cymru er mwyn lleihau'r baich ar unigolion). Rhagwelir y byddai Fforwm presennol Gogledd a Chanolbarth Cymru yn cael ei ymostwng i'r fforwm newydd.

5. Am y tro mae'n debygol y bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal o bell (a fyddai'n arbed teithio) ond pe baen nhw'n cwrdd yn bersonol byddai angen cytuno ar leoliad canolog. Rydym yn rhagweld cynnal y cyfarfod cyntaf ym mis Rhagfyr ac mae'n debyg y bydd yr agenda drafft yn cynnwys –

   1) Esboniad o Gylch Gorchwyl, rôl ayyb;

   2) Diweddariad ar Adroddiad Penn;

   3) Trafod yr hyn yr ydym bob un yn ei wneud i weithredu'r ddyletswydd newydd ar arweinwyr grwpiau a sut y bydd hynny'n cael ei adrodd fel rhan o adroddiad blynyddol SC.

Mae cefnogaeth ysgrifenyddiaeth y Fforwm yn cael ei ddarparu gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fydd yn lleihau'r effaith ar adnoddau'r cyngor. Ymhellach mae'r trefniadau gweithio ar gyfer y Fforwm wedi'u cynllunio i gyd-fynd â'r strwythurau presennol megis cyfarfodydd LLG ac felly ni fydd angen llawer o adnoddau ychwanegol

**Fforwm Pwyllgorau Safonau Cenedlaethol**
**Cylch Gorchwyl (2022)**

Diben y Fforwm yw rhannu arfer gorau a darparu fforwm i ddatrys problemau ar draws y

1) 22 prif gyngor
2) 3 awdurdod tân ac achub
3) 3 awdurdod parc cenedlaethol

mewn perthynas â gwaith Pwyllgorau Safonau.

Swyddogaeth y fforwm yw rhannu gwybodaeth ac felly bydd yn rhaid i unrhyw benderfyniadau gael eu gwneud gan y Pwyllgorau Safonau unigol. Ar adegau, bydd y Fforwm angen gwneud penderfyniadau am faterion gweinyddol sy'n ymwneud â'i arferion ei hun a'i weinyddiaeth o gyfarfodydd.

- Aelodaeth - Cadeirydd, gyda'r Is-gadeirydd i fynychu yn absenoldeb y Cadeirydd.
- Fel arfer, gwneir penderfyniadau drwy gonsensws ond lle mae angen penderfyniad ffurfiol, yna bydd un bleidlais fesul awdurdod, a Chadeirydd y Fforwm fydd â'r bleidlais fwrw.
- Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd - bob dwy flynedd er mwyn cael cysondeb.
- Cefnogaeth Ysgrifenyddol - bydd CLlLC yn anfon rhaglenni, yn paratoi cofnodion ac fe all baratoi adroddiadau sylfaenol yn dadansoddi'r ymarfer ledled Cymru. Mae'r gefnogaeth a ddarperir gan swyddogion i baratoi adroddiadau mwy estynedig yn ddibynnol ar swyddog monitro o gyngor yn gwirfoddoli/cytuno i wneud y gwaith.
- Amlder Cyfarfodydd - 2 gyfarfod y flwyddyn ar ôl cyfarfod y Grŵp Swyddogion Monitro - Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol.
- Bydd eitemau ar gyfer y rhaglen yn cael eu hawgrymu gan Swyddogion Monitro, yn seiliedig ar drafodaethau â'u Pwyllgorau Safonau ac yn ogystal, bydd gan y Fforwm flaengynllun gwaith ac fe all aelodau gyfrannu ato.
- Gofynnir i bob rhanbarth anfon 1 swyddog monitro i gynrychioli'r awdurdodau lleol yn yr ardal honno, gydag 1 swyddog monitro ychwanegol yr un ar gyfer awdurdodau tân ac achub ac awdurdodau parc cenedlaethol (gan roi cyfanswm o 6 swyddog monitro).

*Dylid cael rhaglen fer ar gyfer pob cyfarfod, a Sesiwn Hyfforddi ar ei ôl.*
*Gallai siaradwyr o Swyddfa'r Ombwdsmon, Panel Dyfarnu Cymru a Llywodraeth Cymru annerch y Fforwm ar eu gwaith.*

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Safonau** |
| **DYDDIAD** | **21 Tachwedd 2022** |
| **TEITL** | **Deddf Llywodraeth Leol Ac Etholiadau (Cymru) 2021 ("Y Ddeddf")**<br>**Protocol Dyletswydd Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol a'r Pwyllgor Safonau ("Y Protocol")** |
| **AWDUR** | **Iwan Evans – Swyddog Monitro** |

**1. Cefndir**

Mae'r Ddeddf yn gosod dau brif ddyletswydd ar Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol ("Arweinyddion") mewn perthynas â safonau ymddygiad Aelodau Grwpiau trwy Adran 62. Y dyletswyddau yw:

- I gymryd camau rhesymol i hyrwyddo a chynnal safonau uchel o ymddygiad gan aelodau o'u grŵp.
- Cydweithio gyda'r Pwyllgor Safonau wrth iddo weithredu ei swyddogaethau.

Yn ogystal, mae swyddogaethau'r Pwyllgor Safonau yn cael eu hymestyn i gynnwys:

- Monitro cydymffurfiaeth Arweinyddion â'r ddyletswydd.
- Cynghori, hyfforddi neu drefnu i hyfforddi Arweinyddion ar y ddyletswydd.

Penderfynodd y Pwyllgor Safonau argymell sefydlu protocol ar gyfer gweithredu, cyd-weithredu a monitro gweithrediad y ddyletswydd a hynny mewn cyd-drafodaeth gydag arweinyddion a dirprwy arweinyddion grwpiau presennol y Cyngor.

Eitem 8 - Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru 2021 - Newidiadau ir Fframwaith Foesegol.pdf

Mae'r ddyletswydd newydd bellach wedi dod i rym ers Mai 2022 sydd yn gosod gofyn positif ar Arweinyddion i gymryd camau hyrwyddo a chynnal ymddygiad. Bydd hyn yn golygu cyd-weithio rhwng y Pwyllgor Safonau ac yr Arweinyddion. Gall hyn fod yn gam cadarnhaol i gefnogi safonau ymddygiad aelodau ac i ddatrys materion yn gynnar.

Fe wnaeth y Pwyllgor Safonau ofyn i'r Swyddog Monitro greu'r protocol sydd wedi cael ei wneud erbyn hyn ar y cyd gyda'r Arweinyddion (Atodiad 1).

**2. Y Protocol**

Mae'r protocol yn cyflwyno camau gweithredu i'w cymryd er mwyn cynnal y ddyletswydd yma sydd yn adlewyrchu'r canllawiau statudol- Llywodraeth Cymru *'Ymgynghoriad ar Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021: Canllawiau Statudol ar Safonau Ymddygiad'*.

Mae'r protocol yn nodi'r trefniadau presennol a beth sy'n cael eu hadeiladu ar hynny. Mae'n cynnwys tair elfen Hyfforddi, Hyrwyddo Ymddygiad Da a Chydweithio.

Un o brif rolau'r Arweinyddion fydd cefnogi a hybu trefniadau datrysiadau mewnol neu anffurfiol i gynnal safonau ymddygiad aelodau. Ar yr un amser bydd raid i'r Arweinyddion osod esiampl dda eu hunain.

Mae'n bwysig nodi un o amcanion y protocol yw atal ymddygiad amhriodol cyn torri'r Cod Ymddygiad.

Bydd raid i adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau gynnwys asesiad o i ba raddau y mae Arweinyddion wedi cydymffurfio a'u dyletswyddau.

**3. Trafodaeth**

Fel rhan o'r broses o ddatblygu Protocol cynhaliwyd trafodaeth gyda Cadeirydd ac Is Gadeirydd y Pwyllgor  Y Swyddog Monitro ac arweinyddion y Grwpiau Gwleidyddol cyfredol, Cynghorydd Dyfrig Siencyn Plaid Cymru, Cynghorydd Angela Russell , Annibynnol a Cynghorydd Stephen Churchman Rhydfyrdwyd Democrataidd a Llafur  i ddatblygu y Protocol. O ganlyniad,  mae camau mwy gweithredol wedi cael eu rhoi mewn wrth edrych ar y sylwadau. Yn ychwanegol, mae'r Protocol wedi cael ei drafod yn y Grŵp Busnes am ystyriaeth pellach gan yr Arweinyddion. Mae'r Protocol yn adlewyrchu canlyniad y trafodaethau yma.

**4. Argymhelliad**

1. **Cymeradwyo Protocol Dyletswydd Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol a'r Pwyllgor Safonau i'w Arwyddo gan Gadeirydd Y Pwyllgor a'r Arweinyddion Grwpiau Gwleidyddol.**

2. **I dderbyn adroddiad pellach ar weithrediad y Protocol i gyfarfod Mehefin y Pwyllgor Safonau.**

**CYNGOR GWYNEDD**

**PROTOCOL ARWEINYDDION GRWPIAU GWLEIDYDDOL A'R PWYLLGOR SAFONAU**

"Mae'r fframwaith safonau moesegol yng Nghymru yn ceisio hybu aelodau llywodraeth leol i gynnal safonau ymddygiad uchel a chyson, gan fod y rhain yn sail i hyder y cyhoedd mewn llywodraeth ddemocrataidd. Mae'n rhaid parchu amrywiaeth a thrin pawb gyda pharch er mwyn bod yn effeithiol. Er mwyn arddel safonau ymddygiad uchel dylai arweinwyr lleol a phob aelod etholedig dderbyn cyfrifoldeb am eu gweithredoedd, fel unigolion ac ar y cyd."

Llywodraeth Cymru, *'Ymgynghoriad ar Ganllawiau Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau Cymru (2021)'*

Cyffredinol

- Mae Cyngor Gwynedd wedi mabwysiadu: Egwyddorion Ymddygiad, Cod Ymddygiad Aelodau ac Aelodau Cyf - Etholedig a Safon Gwynedd er mwyn sefydlu fframwaith moesegol o fewn y Cyngor.
- Mabwysiadwyd Trefn Datrys Fewnol gan y Cyngor er mwyn ymdrin â phryderon a chwynion mewnol ynglŷn ag ymddygiad aelodau etholedig.
- Cefnogir y gyfundrefn yma gan y Swyddog Monitro, sydd â chyfrifoldeb gweithredol am weinyddu'r gyfundrefn a hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad trwy ddarparu cyngor ac arweiniad ar ddehongli a gweinyddu'r drefn yma, a gweithredu fel cyswllt gydag uwch reolaeth y Cyngor.
- Mae'r drefn yma yn rhan o fframwaith moesegol Awdurdodau Lleol sydd yn cael ei arwain gan Ombwdsman Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ac yn cefnogi Fframwaith Moesegol .
- Mae gan y Cyngor Bwyllgor Safonau, sydd â'r dyletswyddau canlynol o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol 2000: Hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel yn ogystal â chynghori'r awdurdod ar ddilyn y cod ymddygiad, monitro gweithrediad y cod ymddygiad, darparu cyngor neu drefnu hyfforddiant ar y cod ymddygiad.

--------------------------------------------------

- Gan adeiladu ar y trefniadau presennol, mae dyletswydd newydd wedi cael ei mewnosod gan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Gosodir dyletswydd newydd ar Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol ("Arweinyddion") mewn Prif Gyngor i 'hybu a chynnal safonau ymddygiad uchel ymhlith aelodau eu grŵp', ac ar yr un amser, gosod esiampl dda eu hunain.
- Bydd raid i Arweinyddion gydweithredu â Phwyllgor Safonau'r Cyngor a sicrhau bod pob aelod grŵp yn cydweithredu hefyd.
- Bydd Arweinyddion yn adrodd am gydymffurfiaeth â'u dyletswydd i'r Pwyllgor Safonau ar ffurf adroddiad, un blynyddol ac un interim. Dylai Arweinyddion gadw cofnod o unrhyw weithgareddau er cyd-fynd gydag adroddiad PS .
- Mae swyddogaethau penodol Pwyllgor Safonau yn ymestyn i gynnwys monitro cydymffurfiaeth gan Arweinyddion â'r ddyletswydd newydd uchod. Rhaid i Bwyllgor Safonau hefyd ddarparu cyngor neu ddarparu neu drefnu hyfforddiant i Arweinyddion ar y ddyletswydd newydd.
- Fel rhan o'r adroddiad blynyddol, sy'n rhaid i'r Pwyllgor Safonau gyflwyno i'r awdurdod, bydd raid adrodd ar sut mae'r Arweinyddion yn cydymffurfio â'r ddyletswydd newydd yn yr adroddiad, a pha gyngor neu hyfforddiant sydd wedi cael ei ddarparu.



DRAFT

**Camau Gweithredol**

| Arweiniad Statudol | Gweithredu |
|---|---|
| **Hyfforddi** | |
| • Arddangos ymrwymiad personol i gyfleoedd datblygu neu hyfforddiant perthnasol ynghylch cydraddoldeb a safonau, a mynychu cyfleoedd o'r fath. | Mynychu hyfforddiant perthnasol.<br><br>Gofyn i Swyddog Monitro am arweiniad a chefnogaeth. |
| • Annog aelodau'r grŵp i fynychu cyfleoedd datblygu neu hyfforddiant perthnasol ynghylch cydraddoldeb a safonau. | Gweithio gyda SM i drefnu fod pob aelod Grŵp wedi mynychu hyfforddiant Cod Ymddygiad ar gychwyn tymor ac annog iddynt fynychu cyfleoedd pellach. |
| • Sicrhau bod enwebeion i bwyllgor wedi derbyn yr hyfforddiant a argymhellir ar gyfer y pwyllgor hwnnw. | Trefnu i hyrwyddo am hyfforddiant o fewn y grwpiau. Mae rhai yn fandadol megis Cynllunio a Thrwyddedu ond eraill yn ddewisol megis Craffu.<br><br>Hyrwyddo cyrsiau sy'n cefnogi'r fframwaith moesegol e.e. cydraddoldeb, defnydd cyfryngau cymdeithasol, cyfansoddiad. |
| **Hyrwyddo Ymddygiad Da** | |
| • Hybu moesgarwch a pharch o fewn cyfathrebiadau a phwyllgorau'r Grŵp ac mewn pwyllgorau Cyngor ffurfiol. Osgoi unrhyw gwyn waethygu. | Bod yn barod i gael gair i gall gydag aelodau trwy drafodaethau anffurfiol cynnar a gofyn i aelodau ystyried ymddiheuro neu ddileu negeseuon lle'n briodol. |
| • Hybu gweithdrefnau datrys anffurfiol yn y cyngor; a gweithio gyda'r pwyllgor safonau a'r Swyddogion Monitro i ddod i ddatrysiad yn lleol. | Sicrhau fod aelodau yn cymryd rhan mewn trefniadau o'r fath a chefnogi'r broses.<br>Cyfrannu at ddatblygu ac adolygu trefniadau.<br>Swyddog Monitro i gynnwys Arweinyddion mewn trafodaethau ynglŷn â threfniadau a gyda'r Phwyllgor Safonau. |
| • Hybu diwylliant o fewn y Grŵp sy'n cefnogi safonau uchel o ran ymddygiad ac uniondeb. | Cael eitem sefydlog mewn cyfarfodydd Grŵp o gwmpas fframwaith moesegol, materion.<br>Bod yn barodi i gael sgwrs gyda Swyddog Monitro am gwestiynau, cwynion, canlyniadau neu unrhyw fater sydd yn codi. |
| **Cyd Weithio** | |
| • Mynychu cyfarfod Pwyllgor Safonau'r Cyngor os gofynnir iddo wneud hynny er mwyn trafod materion yn ymwneud â'r Cod Ymddygiad. | Gofyn am unrhyw argymhellion a gofynion hyfforddi gan y Pwyllgor Safonau . |

| | |
|---|---|
| • Gweithio i weithredu unrhyw argymhellion gan y Pwyllgor Safonau ynghylch gwella safonau.<br><br>• Cydweithio ag arweinwyr grŵp eraill, o fewn rheswm, i gefnogi gyda'i gilydd safonau ymddygiad uchel o fewn y cyngor? | Sefydlu trefn o gyfarfodydd anffurfiol gyda Arweinyddion Grwpiau eraill a Chadeirydd ac Is Gadeirydd Pwyllgor Safonau a Swyddog Monitro bob 6 mis. |

** O ran cwynion Ombwdsman, bydd Arweinyddion yn cael eu hysbysu am fodolaeth y gwyn gan y Swyddog Monitro yn unol â threfniadau a ganiateir gan yr Ombwdsman.*

DRAFFT

| Pwyllgor : | Y PWYLLGOR SAFONAU |
|---|---|
| Dyddiad : | 21 Tachwedd 2022 |
| Teitl : | Honiadau yn erbyn aelodau |
| Awdur : | Siôn Huws, Rheolwr Priodoldeb ac Etholiadau |
| Pwrpas : | Er gwybodaeth |

**1. Cefndir**

Pwrpas yr adroddiad hwn yw cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor am benderfyniadau'r Ombwdsmon ar gwynion ffurfiol yn erbyn aelodau.

**2. Penderfyniadau**

Derbyniwyd y penderfyniadau canlynol oddi wrth yr Ombwdsmon ers yr adroddiad diwethaf.

| Cwyn | Penderfyniad |
|---|---|
| **Cwyn Rhif 202200859**<br><br>Cwyn bod cynghorydd tref wedi torri'r Cod:<br><br>1. Y gallai'r aelod fod wedi cyflawni twyll etholiadol gan ei bod wedi brolio am gofrestru ei mab ar y gofrestr etholiadol pan oedd hefyd wedi'i gofrestru mewn ardal arall.<br><br>2. Bod yr aelod yn anurddasol wrth eistedd ar risiau'r orsaf bleidleisio yn rhwystro pobl rhag mynd i mewn heb orfod ceisio mynd heibio iddi.<br><br>3. Bod yr aelod wedi defnyddio ei thudalen Facebook i gynnal ymgyrch casineb yn ei erbyn. | Dim ymchwiliad:<br><br>1. Nid oedd yr achwynydd wedi darparu digon o dystiolaeth i gadarnhau ei gŵyn. Mae pryderon am dwyll etholiadol yn fater i'r Heddlu.<br><br>2. Nid oedd y toriad honedig o'r Cod yn ddigon difrifol i warantu ymchwiliad er budd y cyhoedd.<br><br>3.Nid oedd yr achwynydd wedi darparu tystiolaeth o'r sylwadau Facebook y cyfeiriodd atynt ac felly nid oedd wedi darparu digon o dystiolaeth i gadarnhau ei gŵyn. |

**3. Dadansoddiad o'r Cwynion**

Isod ceir dadansoddiad o natur y cwynion y cafwyd penderfyniad arnynt hyd yn hyn eleni (2022/23):

| **Aelod y gwnaed y gŵyn yn ei (h)erbyn** | |
|---|---|
| Aelod o gyngor cymuned | 2 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd | 1 |
| Aelod o Gyngor Gwynedd a chyngor cymuned | |
| **Natur yr achwynydd** | |
| Cynghorydd | 1 |
| Aelod o'r cyhoedd | 1 |
| Swyddog | 1 |
| **Natur yr honiad** | |
| Ymddygiad cyffredinol | 3 |
| Datgan Buddiant | |
| Ymddygiad cyffredinol a Datgan Buddiant | |
| **Canlyniad** | |
| Dim ymchwiliad | 1 |
| Ymchwiliad – dim tystiolaeth o dorri'r Cod Ymddygiad | 1 |
| Ymchwiliad –dim camau pellach | |
| Ymchwiliad wedi ei ddirwyn i ben | 1 |
| Ymchwiliad – cyfeiriad at y Pwyllgor Safonau | 1 |
| Ymchwiliad – cyfeiriad at Banel Dyfarnu Cymru | |

**4. Achosion Agored**

4.1 Mae'r sefyllfa o safbwynt achosion eraill fel a ganlyn:

- **Ombwdsmon yn ystyried os dylai ymchwilio 0**
- **Ombwdsmon yn cynnal ymchwiliad 2**
- **Wedi eu cyfeirio at y Pwyllgor Safonau 1**
- **Wedi eu cyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru 0**

**5. Argymhelliad**

5.1 Gofynnir i'r Pwyllgor nodi'r wybodaeth